

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 14eg o Fawrth 2017.

1. **Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir), Nerys Williams, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts (Llanllyfni); Harry Wyn Owen – Talysarn; Katie PCSO Penygroes / **Ymddiheuriadau:** Justin Davies – Penygroes, Sharon Wynne Jones – Talysarn, Dafydd Thomas – Nebo, Craig ab Iago – Cynghorydd Sir.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Chwefror.** Gwyndaf yn cynnig cywirdeb a Harry yn eilio.
4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Llyfrgell – llyfrgellydd Penygroes yn symud swydd, a bydd colled ar ei hol.
5. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Adolygwyd y daflen gyllid a chymeradwywyd gan y Cynghorwyr. Tynnwyd sylw'r Cyngor i'r tan-wariant Goleuadau Nadolig. Roedd y Clerc yn parhau i geisio cysylltu efo'r trydanwr ynglyn a'r goleuadau nadolig gan eu bod yn parhau heb eu tynnu i lawr, ond dal heb dderbyn ymateb. Yn ogystal, mae oediad yn nhrafodaethau cynllun MacPelah wedi golygu bydd trafodaethau yn symud ymlaen I'r flwyddyn ariannol nesaf.
6. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Cyfansoddiad draft wedi ei lunio ar gyfer y 3 Cyngor. Cytundeb torri gwair llwybrau i'w thrafod a'i rhoi allan yn lleol. Toiledau cyhoeddus Dias Dinlle yn parhau i fod yn destun trafod.
7. **Cynllunio:**
 - C17/0150/22/LL – Cyn safle garej Poveys – adeiladu siop cyfleus newydd ayyb. CYMERADWYO. Holi Co-op os oes toiledau cyhoeddus fel rhan o'r cynllun? Ysgrifennu at y Co-op I'w hysbysu fod toiledau cyhoeddus yno ar hyn o bryd, ac os oes bwriad cadw'r adnodd yma wrth ddatblygu? Beth ydy'r bwriad efo adeilad y Co-op presennol?
 - C17/0215/22/LL – Bryniau Cochion, Nebo – estyiad unllawr.
 - C17/0135/22/LL – Bryn Ffynnon, Ffordd Llanllyfni – modurdy domestig newydd. CYMERADWYO.
 - C17/0134/22/LL – 91 Ffordd Rhedyw – estyniad deulawr newydd cefn. CYMERADWYO.
 - C17/0211/22/LL – Tir ger Capel Tanrallt, Llanllyfni – codi sied amaethyddol. CYMERADWYO.
 - C17/0195/22/LL – Bron Turnor Bungalow, Llanllyfni – ail godi modurdy a storfa newydd. CYMERADWYO.
8. **Gohebiaeth.**
 - Cyngor Gwynedd: Ymatebion – adroddwyd i'r Cyngor ymateb Cyngor Gwynedd ar safleoedd saethu (er gwyboeth).
 - .Gwybodaeth am wasanaeth DEWIS Cymru. Er gwybodaeth.
 - .Etholiadau Cynghorau Cymuned a Thref. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn rhoi eitem ar gyfer adroddiad gan y Cynghorwyr Sir ar yr agenda yn fisol ar ol yr etholiad fis Mai. Cynghorwyr sir angen bod yn gyswllt rhwng y Gymuned a'r Cyngor Sir. Ysgrifennu at y tri Cynghorydd Sir I'r cyfarfod 1af ar ol yr etholiad. Diolchwyd Dyfed am wasanaethu dros yr holl flynyddoedd a phob lwc iddo yn y dyfodol.
 - .Cyfyngiadau parcio arfaethedig – Ffordd y Brenin, Penygroes. Cymeradwyo.
 - .Adolygiad y Comisiwn Ffiniau o Ffiniau Etholaethol yng Ngwynedd. Dyfed yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa, fod cynnig o ostyngiad i lawr o 75 i 66 o Gynghorwyr Sir yng Ngwynedd.
 - Arall:
 - .Cylchgrawn The Voice. Ar y bwrdd.
 - .Llythyr gan Wasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol. Nid oes cynllun ar gyfer mynwentydd – sut bidden ni'n ymateb pe tai argyfwng? Gofyn os oes mwy o arweiniad, gwerthfawrogi gwybodaeth.
 - .Cyfarfod Pwyllgor Ardal Un Llais – 22/3/17. Er gwybodaeth.
 - .Cylchgrawn Clerks and Councils Direct. Ar y bwrdd.
 - .Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru. Ar y bwrdd.
 - .Yswiriant. Holi am brisiau i gymharu.
 - .Mynwentydd – gwybodaeth gan Un Llais. Gwybodaeth parthed prynu tir i ymestyn mynwentydd a gorfodaeth. Gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr.
 - .Ymgynghoriad newid enw Cynulliad. Er gwybodaeth.
 - .Bolardiau Llanllyfni. Wedi eu gosod.

.Cytundeb Pori ac Ystafelloedd Newid.

.Adroddiad IRP.

.Gwybodaeth Cyfraniadau Pensiwn.

.Diweddariad – pamffled mynwentydd.

.Ebost gan S Jones, parthed trydan ystafelloedd newid Talysarn.

.Craig ab Iago – mainc Llanllyfni

9. **Materion Pentrefi Penygroes** Diolch I Gyngor Gwynedd am y gwaith clirio yn Trem yr Wyddfa, am lenwi tyllau yn Talysarn, ac am y gwaith yng Nghanolfan Talysarn.

10. Llwylbrau a Mynwentydd.

11. Materion yn ymwed a'r heddlu. Mynchoedd Katie, PCSO Penygroes, y cyfarfod. Dywedodd y bydd yn symud i weithio i Gaernarfon yn y mis nesaf. Dywedodd ei bod yn eithaf distaw ar hyn o bryd yn ardal Penygroes, ac mai'r cwynion mwyaf oedd am dorri mewn i siediau gardd. Cwynion hefyd am geir yn gor-yrru drwy'r ardal. Gofynwyd i Katie am y problemau parcio ger y Co-op ym Mhenygroes. Yr heddlu ddim yn cael rhoi tocynnau parcio, ond yn cadw llygad ar y sefyllfa ac yn cynghori gyrrwyr i symud.

Rhannwyd pryderon fod angen cadw llygad ar y Fic, yn enwedig yn y cefn. PCSOs yn trio bod ar y stryd ac yn weledol, ond hyn yn anodd iawn o feddwl fod yr ardal maent yn ei blismona yn fawr iawn. Pan na fydd ateb yng ngorsaf heddlu Penygroes, mae intercom y drws yn cysylltu a Llanelwy.

12. Materion ariannol. Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Dwr Cymru £103.13; Yswiriant.

13. Ceisiadau am arian – Ambiwlans Awyr; Bobath.